# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET – DATBLYGU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MERCHER, 17 AWST 2016 AM 3.00 PM

**YN BRESENNOL**: Bu'r CynghoryddP Downing (Cadeirydd) yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | R D Lewis | P M Matthews |
| P B Smith | T M White | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Ian Beynon | Rheolwr Datblygu ac Allgymorth |
| Stephen Cable | Swyddog Chwarae Plant |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Mark Russ | Rheolwr y Gwasanaethau Glanhau Parciau a Strydoedd |
| Ian Whettleton | Swyddog Adrannol Rheoli Gwastraff |
| Frances Williams | Arweinydd Tîm Gorfodi, Tipio Anghyfreithlon a Sbwriel |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C R Doyle, P Lloyd, G J Tanner a/ac C Thomas

22 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

23 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo a llofnodi cofnodion Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ddatblygiad Arbennig a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2016 a Phwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ddatblygiad a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2016 yn gofnod cywir.

24 **STRATEGAETH MANNAU AGORED.**

Rhoddodd Ian Beynon, Rheolwr Datblygu ac Allgymorth, y diweddaraf i'r pwyllgor am statws presennol y ddogfen strategaeth, a oedd bron wedi'i chwblhau. Roedd yn rhaid aros am ffigyrau mewn perthynas â Gwarchodfeydd Natur, Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Dosbarthodd Stephen Cable, Swyddog Chwarae i Blant, gopi o'r Adroddiad Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC) drafft, a oedd gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth priodol ar hyn o bryd, a byddai'n cael ei gyflwyno i'r Swyddogion Mynediad i Wasanaethau er mwyn ei ystyried a'i gymeradwyo. Gwnaeth ailadrodd y byddai mynediad i wasanaethau'n parhau i gymryd rhan drwy gydol y broses ymgynghori. Byddai

canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu cynnwys yng nghynllun gweithredu Strategaeth Mannau Agored.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am y gwaith a wnaed ganddynt o ran drafftio'r ddogfen strategaeth.

**PENDERFYNWYD** anfon y ddogfen strategaeth derfynol at Aelod y Cabinet dros Les a Dinas Iach ar gyfer ei ystyriaeth.

## 25 ADOLYGIAD O DIPIO ANGHYFREITHLON.

Roedd Ian Whettleton, Swyddog Adrannol Rheoli Gwastraff, a Fran Williams, Arweinydd Tîm Gorfodi, Tipio'n Anghyfreithlon a Sbwriel yn bresennol er mwyn rhoi'r diweddaraf i'r pwyllgor mewn perthynas â'r canlynol:

1. Faint o achosion erlyn oedd wedi cael eu derbyn gan swyddogion gorfodi awdurdod lleol dros y flwyddyn ddiwethaf;
2. Sampl o 5 achos a oedd yn amlinellu sut deliwyd â'r achosion.

Trafododd y Pwyllgor y camau gweithredu amrywiol a gymerwyd mewn perthynas â phob un o'r achosion, a'r dystiolaeth ofynnol er mwyn parhau â'r erlyniadau. Gofynnodd yr aelodau amryw o gwestiynau yr atebwyd gan y swyddogion.

Esboniodd y swyddogion bod Hysbysiadau o Gosb Benodol yn gallu cael eu rhoi mewn perthynas â throseddau a gyflawnwyd o dan Adran 46 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, e.e. gwastraff cartref (sachau du) ond, o dan ddeddfwriaeth bresennol Llywodraeth Cymru, nid oedd yn bosib rhoi hysbysiadau o gosb benodol mewn perthynas ag Adran 33 ac Adran 34 (1) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, e.e. tipio'n anghyfreithlon.

Yn ychwanegol, amlinellwyd ganddynt yr wybodaeth Gwastraff Cartref a Masnachol ganlynol:

O Ebrill 2015 hyd yma
Mae 723 o hysbysiadau statudol ar gyfer gwastraff cartref wedi cael eu dosbarthu
Mae 139 o hysbysiadau o gosb benodol wedi cael eu rhoi o ganlyniad i fynd yn groes i'r hysbysiad. Caiff ffi o £100 ei gostwng i £60 os caiff ei thalu o fewn 7 niwrnod gwaith.

Mae 44 o hysbysiadau statudol wedi cael eu rhoi i fusnesau
Mae 12 o hysbysiadau o gosb benodol wedi eu cyflwyno o ganlyniad i fynd yn groes i'r hysbysiad. Caiff ffi o £180 ei gostwng i £90 os caiff ei thalu o fewn 7 niwrnod gwaith.

Pwysleisiodd y swyddogion fod cyfran fawr o'r gwaith a wneir gan y Tîm Gorfodi'n cynnwys gweithio gyda'r cyhoedd, addysgu pobl a cheisio'u helpu gydag unrhyw broblemau sbwriel y gallent eu hwynebu.

Cafwyd trafodaeth wedi hyn ynglŷn â chyhoeddi manylion am erlyniadau llwyddiannus, a chysylltu'r rhain ag ystadegau ailgylchu cadarnhaol ar wefan y

cyngor. Yn ychwanegol, awgrymodd y pwyllgor y dylai'r wybodaeth sydd ar y gwe-dudalennau tipio'n anghyfreithlon gael ei gwella i gynnwys yr hyn na ddylid ei wneud pan geir tipio anghyfreithlon.

Dywedodd y swyddogion bod oddeutu 1,000 o geisiadau am wasanaeth yn cael eu derbyn bob mis gan y Tîm Gorfodi.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am yr wybodaeth a ddarparwyd ganddynt.

**PENDERFYNWYD** y dylid nodi'r wybodaeth, a bydd y swyddogion yn darparu dadansoddiad o ffigyrau ceisiadau gwasanaeth misol erbyn y cyfarfod nesaf.

## 26 Y DIWEDDARAF GAN Y CADEIRYDD (LLAFAR)

Adroddodd y Cadeirydd am y diweddariadau canlynol:

1) **Troi Stryd y Gwynt yn barth cerddwyr** - Roedd Rheolwr Canol y Ddinas wedi llunio holiadur a fyddai'n cael ei ddosbarthu i'r busnesau priodol â llaw a'u casglu yn yr un modd;
2) **Marchnad Abertawe (darparu toiledau cyhoeddus) -** Rhoddir y diweddaraf yn y cyfarfod nesaf a drefnir ar gyfer 21 Medi 2016;
3) **Canolfan Siopa Ranbarthol Treforys -** Bydd y cadeirydd yn trefnu ail ymweliad safle ar fore dydd Mercher yn ystod yr wythnosau nesaf.

**PENDERFYNWYD** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Cadeirydd.

## 27 CYNLLUN GWAITH.

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2016-17.

**PENDERFYNWYD** y dylid cofnodi'r Cynllun Gwaith.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.06 pm

**CADEIRYDD**